Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# CANLLAWIAU RHANBARTHOL I SEFYDLIADAU ADDYSGOL YNG NGOGLEDD CYMRU AR WEITHREDU'R GDD (GRANT DATBLYGU DISGYBLION) .

Llywodraeth Cymru

Pwrpas y cyllid yw dod â manteision hirdymor ar ddeilliannau i blant difreintiedig.

1. **Cefndir:**

Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg o'r GDD mewn perthynas â'r agendau/gofynion cenedlaethol, y dull gweithredu rhanbarthol a'r cymorth gan y consortia, a pherthnasedd ac effaith hyn ar ysgolion a lleoliadau.

2. **Y cyd-destun cenedlaethol:**

Un o amcanion allweddol Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017–21 yw "codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol." Mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu'r GDD fel y gall ysgolion wella cyfleoedd bywyd ein dysgwyr mwyaf difreintiedig, gyda ffocws ar ymyrryd yn gynt a chefnogi'r mwyaf abl a thalentog. Mae'r GDD hefyd yn cefnogi gweithredu amcan 3, sy'n cyfeirio at ddatblygu "ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles."

Diffiniad estynedig o ddefnyddio'r GDD:

Ebrill 2018

"Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol, neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r GDD roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheiny o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial yn llawn."

3. **Beth yw Dyraniadau GDD 2021/2022?**

Mae LlC wedi dyrannu'r GDD yn seiliedig ar ddata CYBLD 2020.

O Ebrill 2021, bydd y GDD yn parhau i gael ei ddyrannu i gefnogi:

- dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac a addysgir mewn ysgolion a gynhelir;
- dysgwyr sydd â chofrestriad sengl mewn uned cyfeirio disgyblion (UCD) ac mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS);
- dysgwyr cymwys mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ble darperir Y Cyfnod Sylfaen; a
- Plant mewn gofal (PMG) a phlant a arferai dderbyn gofal sydd wedi'u mabwysiadu o ofal, neu sy'n destun gwarchodaeth arbennig neu orchymyn preswyliad, 3-15 oed.
- Yn ogystal, ar gyfer 2020-21, bydd y GDD yn codi elfen blynyddoedd cynnar y grant i £1,150 y dysgwr.

4. **Canllawiau GDD i ysgolion / lleoliadau:**

Mae LlC yn nodi y dylid defnyddio'r GDD i:

1. Gefnogi pob dysgwr hPYD drwy adnabod disgyblion yn gynnar a'u tracio'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y dysgwyr mwy galluog.

2. Datblygu staff addysgu a staff cymorth i ddefnyddio arferion megis metawybyddiaeth, meddylfryd o dwf ac adborth o ansawdd, arferion yr ystyrir ar hyn o bryd fel y rhai mwyaf effeithiol gyda dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

3. Ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â gwendidau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn berthnasol i'r blynyddoedd cynnar, yn ogystal â phan fo disgyblion yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ac yn ystod cyfnodau pontio allweddol eraill.

4. Sicrhau y targedir mwy o adnoddau yng nghyfnod allweddol 3, yn y dosbarth ac mewn gweithgareddau cyfoethogi, a chodi dyheadau, tra cydnabyddir pwysigrwydd Blwyddyn 11 i bob dysgwr. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i ysgolion uwchradd gyflawni targed uchelgeisiol o fuddsoddi 60% o'r GDD mewn dysgwyr CA3.

5. Sicrhau y cyhoeddir holl ddatganiadau GDD ar wefan yr ysgol (os nad oes gan yr ysgol wefan, dylid ei anfon a'i gyhoeddi gan GwE).

**<u>Cynllun Datblygu Ysgol:</u>**
Mae'n ofyniad statudol bod gan bob ysgol yng Nghymru gynllun datblygu ysgol (CDY) mewn lle. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod y consortia addysg rhanbarthol yn cefnogi ysgolion i ddefnyddio eu CDY fel dull o gynllunio eu defnydd o'r GDD ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim lle bo'n briodol. Copi o'r CDY i'w gynnwys ar G6 fel tystiolaeth.

**5. <u>Cefnogaeth Ranbarthol:</u>**

Mae model cynllun busnes GwE ar gyfer y GDD wedi'i weithredu'n llawn yn y rhanbarth ac mae'n amlinellu sut y bydd y consortia yn defnyddio eu hadnabyddiaeth o ysgolion a gwaith ymchwil i hwyluso rhannu arferion gorau a chydweithio er mwyn gwella deilliannau dysgwyr, a hynny o fewn system hunan wella.

Yn ddi-os, mae perthynas uniongyrchol rhwng cyrhaeddiad addysgol a ffyniant economaidd, ac yn syml, nid yw llawer o'r dysgwyr hPYD a effeithir yn cyflawni eu potensial yn llawn. Mae'n wir bod llawer o ddysgwyr bregus yn llwyddo yn ein hysgolion. Serch hynny, mae perfformiad rhai grwpiau o ddysgwyr ymhell y tu ôl i berfformiad a llwyddiannau grwpiau eraill o hyd.

Mae'r consortia rhanbarthol wedi datblygu strategaeth GDD un tudalen y gall ysgolion a lleoliadau ei gweithredu, ac mae'r ffocws ar:

I. atebolrwydd a dull ysgol gyfan
II. adnabod dysgwyr yn gynnar a'u tracio
III. dysgu ac addysgu
IV. darpariaeth a chymorth ychwanegol
V. arfarnu a mesur effaith

Gweler gopi o'r fframwaith GDD –

Fframwaith PDG
Cymraeg.docx

**6. <u>Rôl yr Ymgynghorydd GDD Rhanbarthol:</u>**

Mae gan YCG Llesiant y Consortia gyfrifoldeb cyffredinol am y strategaeth GDD ar draws y rhanbarth, ac mae'n cynrychioli'r rhanbarth ar y grŵp llywio GDD cenedlaethol. Yr Ymgynghorydd fydd y prif

gyswllt ar gyfer ysgolion o ran ymyraethau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant cyswllt am ragor o wybodaeth a chymorth.

## 7. Rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt:

Mae gan y Consortia Addysg Rhanbarthol gyfrifoldeb i fonitro a chymeradwyo cronfeydd GDD o fewn cyd-destun yr agenda gwella ysgol ac yn unol â gofynion LlC o'r cynllun cymorth blynyddol a gynhyrchir gan y consortia. Bydd gan eich Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) cyswllt a'r YCG Llesiant feini prawf/cwestiynau monitro clir er mwyn sicrhau ansawdd o ran sut y defnyddir y cyllid a'i effaith ar ddysgwyr bregus. Defnyddir yr wybodaeth hon i gymeradwyo pob cynllun yn ogystal ac adnabod arferion llwyddiannus mewn ysgolion ac adnabod effaith y GDD ar gyflawniadau disgyblion. Bydd hyn hefyd yn adnabod meysydd penodol ar gyfer gwelliant yn y rhanbarth ac yn sicrhau y rhoddir ymyraethau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.

Gweler gopi o'r cwestiynau monitro GDD.

Cwestiynau Monitro PDG Cymra

Rhestr Wirio Arferion Llwyddiann

## 8. Atebolrwydd a Thystiolaeth o gronfeydd GDD

Y Dangosfwrdd Grant rhanbarthol yw'r dull o fonitro a sicrhau atebolrwydd y GDD. Mae gan bob ysgol gyswllt â'r dangosfwrdd trwy Office 365 a gofynnir iddynt boblogi eu cyllideb GDD yn erbyn yr elfennau / amcanion allweddol y grant. Mae'r system hefyd yn cynnwys elfen cymeradwyo a sicrhau ansawdd. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion a lleoliadau rannu Cynlluniau GDD trwy gwefan yr ysgolion neu gonsortia.

School Grants Screenshots.docx

## 9. Arfarnu & Mesur Effaith GDD

Bwriad y canllawiau yw cefnogi ysgolion wrth iddynt fonitro ac arfarnu'r ymyraethau/gefnogaeth a gyllidir gan y GDD ar draws y rhanbarth. Gall gynnwys dulliau ysgol gyfan yn ogystal â thargedu cynhaliaeth i unigolion. O weithredu'r canllawiau, ceir cysondeb yn y modd y bydd ysgolion yn cofnodi eu tystiolaeth, a'r modd y bydd y consortia rhanbarthol yn adnabod arferion llwyddiannus. Rhennir yr arfarniad efo partneriaid perthnasol yn y ffordd fwyaf priodol sy'n cynnwys G6, ymweliadau ysgol, cyfarfodydd ALl unigol ac adroddiad blynyddol. Bydd canfyddiadau'r arfarnu hefyd yn bwydo i fodel cylch cynllun busnes a chynllun cymorth LlC am y flwyddyn ganlynol.

## 10. Rôl yr Awdurdod Lleol:

Bydd GwE yn gweithio ar y cyd â'r ALl i sicrhau bod ysgolion yn cadw at Fodel Arfarnu a Monitro rhanbarthol y GDD. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol fydd sicrhau effeithiolrwydd strategaeth y GDD

drwy GwE. Cyflawnir hyn, yn y lle cyntaf, drwy gyfarfodydd monitro GwE ym mhob Awdurdod Lleol, a Chraffu ar gais yr aelodau etholedig.

Os oes unrhyw bryderon sylweddol am y modd y defnyddir y GDD gan ysgol/lleoliad o ran peidio â bodloni telerau ac amodau'r grant, gall yr awdurdod lleol ofyn am gael ail ddyrannu'r arian.